ELDRICK WOODS

Tiger Woods

(dyfalbarhad / dysgu cydweithredu)

Un o'r gêmau sydd ar gynnydd ymhlith ieuenctid y dyddiau hyn yw golff. Yn y gorffennol cysylltid y gêm â phobl hŷn neu bobl wedi ymddeol oedd yn chwarae golff i basio'r amser. Roedd hi hefyd yn cael ei chysylltu â dynion yn unig ond, erbyn heddiw, mae dynion a merched ynghyd ag ieuenctid yn chwarae'r gêm ac yn cael mwynhad mawr.

Ar 13 Awst 1997 ymddangosodd seren newydd ar ffurfafen byd golff. Y seren newydd oedd Eldrick Woods neu, i roi ei lysenw iddo, Tiger Woods. Yn 21 oed ef oedd y golffiwr ieuengaf i ennill pencampwriaeth yr 'US Masters'. Roedd 'Tiger' ymhell ar y blaen i weddill y chwaraewyr. Ei sgôr terfynol oedd 270, neu 18 islaw'r pâr – y cyfanswm lleiaf erioed yn y bencampwriaeth hon. Woods hefyd oedd y dyn du ei groen cyntaf i ennill pedair o'r pencampwriaethau uchaf yn y wlad. Meddai, "Rydw i'n gobeithio bod y ffaith fy mod wedi ennill yn gwneud i blant ac ieuenctid gredu fod chwarae golff yn cŵl!"

Dechreuodd 'Tiger' chwarae golff gyda'i dad, pan oedd yn ddim o beth. Yn wir, pan oedd wedi dechrau cerdded roedd wrthi'n hyrddio'r clwb golff drwy'r awyr. Yn ôl pob sôn fe darodd y bêl a'i rhoi yn y 'twll mewn un' am y tro cyntaf pan oedd yn chwech oed. Roedd pawb a'i gwelodd yn credu ei fod yn golffiwr wrth reddf ac y byddai'n dod yn 'seren' ar ôl iddo dyfu i fyny.

Penderfynodd ei dad y byddai'n ei hyfforddi. "Os wyt ti am i mi roi hyfforddiant i ti," meddai, "bydd raid i ti ymarfer yn gyson bob cyfle gei di. Mae ymarfer cyson yn bwysig iawn os wyt ti am lwyddo." Ymatebodd Tiger trwy roi ei holl fryd ar y gêm. Yn y flwyddyn 2000 ef oedd y golffiwr cyntaf er 1953 i ennill tair o'r prif bencampwriaethau yn yr un flwyddyn. Y flwyddyn ddilynol, ac yntau'n 24 oed, ef oedd y chwaraewr ieuengaf ers y tri degau i fod yn bencampwr ar bedair o brif bencampwriaethau byd golff.

Felly pan ddewiswyd Tiger i chwarae yn nhîm yr Unol Daleithiau yng nghwpan Ryder yn erbyn Ewrop credai pawb y byddai'n ennill pob gêm heb drafferth o gwbl a thrwy hynny sgorio pwyntiau i'w wlad. Ond mae bod yn rhan o Gwpan Ryder yn golygu chwarae ar eich pen eich hun yn ogystal â chwarae mewn pâr. Yn fuan iawn yn ystod y gystadleuaeth sylweddolodd pawb nad oedd

Tiger yn hoffi chwarae fel rhan o dîm. Ym mhob gêm yng Nghwpan Ryder doedd Woods ddim yn chwarae cystal ag arfer ac felly ddim yn ennill y pwyntiau angenrheidiol i'w dîm.

Roedd yn ei chael hi'n anodd i fod yn rhan o dîm; roedd yn well ganddo chwarae fel unigolyn. Efallai eich bod chi'n ei chael hi'n anodd i chwarae fel rhan o dîm? Tybed ai gêm i unigolion ydi golff?

Adnod: "Pan aeth ei ddwylo'n flinedig, cymerwyd carreg a'i gosod dano, ac eisteddodd Moses arni, gydag Aaron ar y naill ochr iddo a Hur ar y llall, yn cynnal ei ddwylo, fel eu bod yn gadarn hyd fachlud haul." Exodus 17:12

Gweddi: Gwna fi, O Dduw, yn aelod o'r teulu, yn ddisgybl da yng nghymdeithas yr ysgol, yn gwneud fy ngorau ymhob cystadleuaeth ond yn fwy na dim yn weithiwr da yn y gwaith rwyt Ti eisiau i mi ei wneud. Amen.

Trafod:

- Fyddech chi'n dweud fod golff yn gêm i ieuenctid neu'n gêm i bobl hŷn?
- Pa mor bwysig ydi ymarfer fel rhan o bob camp? O edrych ar y storïau yn y llyfr hwn ydi ymarfer cyson wedi bod o help i'r gwahanol bobl?